Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 54 | Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn | Pris i'r cyhoedd: £1.50 y rhifyn | Gaeaf 1994/5

## RHIFYN AMRYWIOL

**Dyma rifyn amrywiol o *Y Casglwr* yn boeth o'r wasg unwaith eto. Mae'n cynnwys erthyglau ar lyfrgelloedd capeli, Richard Hughes a hanes cynnar Hughes a'i Fab, rhai o gyhoeddiadau Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, Syr William Jones a William Rees (Gwilym Hiraethog). Hefyd sgwrs efo Tegwyn Jones a chwe thudalen o hysbysebion gan lyfrwerthwyr. Bargen os bu un erioed!**

# FAINT SYDD AR ÔL?

## RHIELL ELIDIR AR HYNT LLYFRGELLOEDD CAPELI'R METHODISTIAID CALFINAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE llawer ohonom ag atgofion am gypyrddau llyfrau llychlyd yng nghonglau festrioedd ein capeli. Ers blynyddoedd bellach esgeuluswyd y llyfrgelloedd hyn, a gwasgarwyd llawer o'r casgliadau gwerthfawr heb fath o gofnod ohonynt. Trafodir enghreifftiau o lyfrgelloedd arwyddocaol ym mhob un o hen siroedd y gogledd, a chynhwyswyd un eglwys Gymraeg yn Lloegr.

Cyn cychwyn ar y daith o amgylch y llyfrgelloedd, penderfynwyd ar holiadur a fyddai'n canolbwyntio ar gefndir y capel a'r llyfrgell, pa fodd y rheolid y llyfrgell, ac a oedd ganddi system o dderbyn a chatalogio llyfrau. Yn olaf, gwnaed astudiaeth o gynnwys y llyfrgell, sef ei maint, iaith, cyfnod, a'i gogwydd diwinyddol.

Sefydlwyd llyfrgelloedd o fewn capeli oherwydd fod yr Ysgolion Sul wedi magu cymdeithas ddarllengar a ddyheai am wybodaeth. Gwelodd yr eglwysi mai un o'u dyletswyddau oedd cynorthwyo'u haelodau i 'garu Duw â'u holl *feddwl*', ac un ffordd i wneud hynny oedd sefydlu llyfrgelloedd. Cynorthwyodd nifer o unigolion a mudiadau'r capeli i sefydlu llyfrgelloedd. Noda G. Wynne Griffith ymdrech James Hughes, brawd y Parchedig John Hughes, a sefydlodd lyfrgell ym mhob un Ysgol Sul Gymraeg ym Manceinion yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gadawodd un David Jones o Lerpwl gymynrodd i sefydlu llyfrgelloedd ac i brynu llyfrau i lyfrgelloedd a sefydlwyd eisoes. Cyfrannodd Cymdeithas y Traethodau Crefyddol lyfrau i'r llyfrgelloedd, ac yn 1882 rhoddodd y gymdeithas grant i 734 o lyfrgelloedd yr Ysgol Sul. Symbylodd y cyfraniad ragor o Ysgolion Sul i sefydlu llyfrgelloedd. Cyfrannodd y Gymdeithasfa hithau yn ariannol i hybu sefydlu llyfrgelloedd i'r Ysgolion Sul. Yng Nghymdeithasfa Wrecsam yn Nhachwedd 1896, pasiwyd 'fod y swm o £400 i gael ei rannu mor fuan ag y delo y ceisiadau i mewn yn rheolaidd' i'r eglwysi a oedd wedi cydymffurfio â thelerau sefydlu llyfrgell perthynol i'r Ysgol Sul, sef casglu dwbl rhodd o'r gymynrodd (o leiaf £10), a darparu ar gyfer cadwraeth y llyfrau.

O fynd o amgylch y llyfrgelloedd y syndod mwyaf oedd y tebygrwydd yn eu cynnwys. Siomedig ar y cyfan oedd cyfanswm y llyfrau ynddynt a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer Ysgolion Sul y Methodistiaid. Yn ogystal â chyfrannu gwasanaeth i aelodau'r eglwys a'r Ysgol Sul, gwelwyd bod nifer o'r llyfrgelloedd yn gwasanaethu'r gymuned. Deilliodd y gwasanaeth oherwydd diffyg yn y ddarpariaeth o lyfrgelloedd cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn dilyn sefydlu llyfrgelloedd cyhoeddus, Saesneg oedd prif iaith y llyfrau. Oherwydd hyn, llyfrgelloedd capeli oedd unig gyswllt mwyafrif y boblogaeth â llyfrau a fyddai'n dyfnhau ac ehangu eu diwylliant a'u gwybodaeth.

**Bethel, Rhosesmor, Sir Fflint**

Lleolir Rhosesmor ar wastatir llwm mynydd Helygain, rhwng pentref Helygain a Rhyd-y-mwyn. Tyfodd yr ardal oherwydd sefydlu mwynglawdd plwm yn y pentref, ac yr oedd ei gyrraedd fel camu i'r nofel *Enoc Huws*. Annelwig yw hanes cychwyn y Methodistiaid yn Rhosemor, ond cychwynnodd ar droad y ddeunawfed ganrif, a chyn 1804. Y pedwerydd capel sy'n sefyll heddiw, ac fe'i hadeiladwyd yn 1910.

Lleolir y llyfrgell mewn cwpwrdd gwydr, sydd, yn ôl ysgrifennydd y capel, yn waith llaw y Parchedig Tom Nefyn Williams a fu'n weinidog yno. Amcangyfrifir y cynhwysa'r llyfrgell oddeutu 248 cyfrol, gyda thua 42% ohonynt yn Gymraeg. Mae'n amlwg y bu system o dderbyn llyfrau drwy eu rhifo. Tu fewn i siaced lwch y llyfr nodir rhif arbennig, ac felly hefyd ar y meingefn. Ond o edrych ar y llyfrau nid yw'r ddau rif yn cydgordio. Yn y rhan helaethaf o'r llyfrau ceir rhestr o reolau argraffedig. Mae'n amlwg i'r llyfrgell gael ei hesgeuluso ers nifer o flynyddoedd, gan nad oedd y llyfrau mewn unrhyw drefn.

O edrych ar gynnwys y llyfrgell, gwelwyd nifer o lyfrau seciwlar, gwleidyddol a

(parhad ar dudalen 2)

LLYFRGELL

CAPEL EBENEZER,

Fourcrosses.

SEFYDLWYD 1907.

Rhestr o'r Llyfrau,

YNGHYD A'R

CYFRIF ARIANOL, RHEOLAU, &c.

PWLLHELI:

ARGRAFFWYD GAN D. CARADOG EVANS, 67, HEOL FAWR.

*Wynebddalen catalog Llyfrgell Capel Ebenezer, Fourcrosses, ger Pwllheli.*